| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **13 CHWEFROR 2012** |
| TEITL YR ADRODDIAD: | **RHAGLEN GYFALAF 2011/12 - ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER (31 RHAGFYR 2011)** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **ARGYMELL I FWRDD Y CYNGOR GYMERADWYO'R ARIANNU ADDASEDIG** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| ARWEINYDD PORTFFOLIO: | **CYNGHORYDD SIÂN GWENLLÏAN** |

**CRYNODEB**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 5 rhan:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £95m am y 3 blynedd 2011/12 – 2013/14.

Rhan 2: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £2.5m ers yr adolygiad ail chwarter, gyda'r mwyafrif o'r cynnydd oherwydd defnydd uwch o'r Cronfeydd Adnewyddu i brynu cerbydau.

Bwrdd y Cyngor sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2). Felly, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell yn briodol i'r Bwrdd.

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

Rhan 3: Llithriadau o 2011/12 i 2012/13.

Rhan 4: Gwariant 9 mis cyntaf 2011/12.

Rhan 5: Proffiliau gwariant.

**BARN**

Mae 2 prif gasgliad yn codi o'r adolygiad trydydd chwarter, sef:-

- Mae'n galonogol fod y gwir wariant hyd at 31/12/11 yn 54% o'r gyllideb, o'i gymharu â 46% yn y cyfnod cyffelyb y llynedd (gweler 4.2 isod).

- Bydd £3.9m, yn ychwanegol i'r £19.4m adroddwyd yn yr ail chwarter, yn llithro o 2011/12 i 2012/13. Mae'n gam positif fod y llithriadau wedi'u hadnabod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, ond gallasai'r llithriad gael effaith ar wasanaethau (gweler 3.4 isod).

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2011/12 i 2013/14

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Rhagfyr yn erbyn y sefyllfa ddiwedd Medi:

### CYMHARIAETH MEWN SYMUDIAD O'R ADOLYGIAD AIL CHWARTER A'R SEFYLLFA TRYDYDD CHWARTER

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 £'000 | 2012/13 £'000 | 2013/14 £'000 | CYFANSWM £'000 | 2011/12 £'000 | 2012/13 £'000 | 2013/14 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 235 | 424 | 0 | 659 | 239 | 420 | 0 | 659 | 0 |
| Addysg | 7,971 | 14,182 | 3,048 | 25,201 | 8,199 | 14,026 | 3,048 | 25,273 | 72 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid | 0 | 60 | 0 | 60 | 0 | 60 | 0 | 60 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 599 | 301 | 0 | 900 | 601 | 301 | 0 | 902 | 2 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 5,894 | 7,356 | 2,492 | 15,742 | 3,222 | 10,454 | 2,492 | 16,168 | 426 |
| Gofal Cwsmer | 6,802 | 2,546 | 0 | 9,348 | 6,146 | 2,992 | 0 | 9,138 | (210) |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,087 | 325 | 0 | 3,412 | 2,815 | 764 | 0 | 3,579 | 167 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,192 | 2,649 | 10 | 9,851 | 8,836 | 2,694 | 10 | 11,540 | 1,689 |
| Rheoleiddio | 8,957 | 11,500 | 6,307 | 26,764 | 8,254 | 12,492 | 6,307 | 27,053 | 289 |
| Strategol a Gwella | 5 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| Tai Cyngor | 63 | 0 | 0 | 63 | 63 | 0 | 0 | 63 | 0 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 242 | 119 | 0 | 361 | 327 | 119 | 0 | 446 | 85 |
| Corfforaethol | 2 | 601 | 0 | 603 | 2 | 601 | 0 | 603 | 0 |
| **CYFANSWM** | **41,049** | **40,063** | **11,857** | **92,969** | **38,709** | **44,923** | **11,857** | **95,489** | **2,520** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cyllideb y rhaglen gyfalaf tair blynedd yn dangos cynnydd o £2,520,000 ers y sefyllfa ail chwarter. Nodir isod y ffynonellau ariannu ar gyfer hyn:

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | CYNNYDD/ (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 £000 | 2012/13 £000 | 2013/14 £000 | 2011/12 £'000 | 2012/13 £'000 | 2013/14 £000 | £000 |
| **Ffynhonnell:** | | | | | | | |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 5,443 | 0 | 0 | 5,443 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 4,492 | 6,548 | 875 | 4,365 | 6,675 | 875 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 18,209 | 21,952 | 10,917 | 15,661 | 25,314 | 10,917 | 814 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 4,144 | 175 | 0 | 4,202 | 297 | 0 | 180 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,441 | 447 | 10 | 3,863 | 1,013 | 10 | (12) |
| Cronfa Cyfalaf | 1,345 | 10,550 | 0 | 803 | 11,092 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 2,975 | 391 | 55 | 4,372 | 532 | 55 | 1,538 |
| **CYFANSWM** | **41,049** | **40,063** | **11,857** | **38,709** | **44,923** | **11,857** | **2,520** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **92,969** | | | **95,489** | |

**2.2 Grantiau a Chyfraniadau**

Ceir cynnydd net o £810,000 yn y Grantiau a Chyfraniadau dros y rhaglen, yn bennaf oherwydd-

2.2.1 **Cynlluniau Lonydd Las (Adran Rheoleiddio) cynnydd o £145,000 yn 2011/12, a £260,000 yn 2012/13 (cyfanswm o £405,000)**
Derbyniwyd grant dros ddwy flynedd gan Lywodraeth Cymru o raglen Môn Menai ar gyfer gwella ein lonydd glas, gyda chyfraniad hefyd o £10,000 gan CADW.

2.2.2 **Cynllun Llwybr Tegid (Adran Economi a Chymuned), cynnydd o £58,300 yn 2011/12, a £261,550 yn 2012/13 (cyfanswm o £319,850)**
Mae hwn yn elfen benodol o gynllun Canolfan Rhagoriaeth Eryri (adroddiad Bwrdd 26/1/10), ac yn drefniant ble mae'r Cyngor yn gweithredu ar ran yr Urdd. Mae'r cynllun yn creu llwybr cerdded a beicio rhwng Canolfan yr Urdd yn Glanllyn a phentref Llanuwchllyn, ac mae'r Cyngor yn adennill grant Ewrop a grant TraCC i'w ariannu ar eu rhan.

2.2.3 **Cynlluniau Grantiau Tai - Ardaloedd Adnewyddu (Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) cynnydd o £167,310 yn 2011/12**
Defnydd uwch o gyfraniadau perchnogion i ariannu cynlluniau Ardaloedd Adnewyddu.

**2.3 Derbyniadau Cyfalaf**

2.3.1 Mae yna gynnydd net o £180,000 yn y defnydd o Dderbyniadau Cyfalaf, yn bennaf oherwydd -

- defnydd uwch o £70,000 ar gynllun trydan Glyn Rhonwy (Adran Economi a Chymuned).

- defnyddio £88,500 o dderbyniadau cyfalaf er mwyn ad-dalu'r buddsoddiad cychwynnol o £200,000 gan y Gronfa Buddsoddi Busnes ar gyfer ariannu cynllun rhesymoli eiddo yn Abermaw yn unol â phenderfyniad Bwrdd 8/4/2008 (wedi ei weinyddu gan yr Uned Eiddo).

2.3.2 Cymerwyd cryn amser i werthu'r eiddo uchod yn Abermaw, ac mae gwerth eiddo wedi cwympo yn gyffredinol mewn blynyddoedd diweddar, oherwydd cyflwr yr economi, a diffyg credyd yn golygu prinder prynwyr. O ganlyniad, mae risg gallasai fod straen ar drefniadau ariannu rhai cynlluniau cyfalaf sy'n ddibynnol ar dderbyn derbyniadau cyfalaf o waredu tir ac eiddo'r Cyngor. Mae nifer cynyddol o brosiectau cyfalaf wedi'u hariannu yn rhannol o dderbyniadau cyfalaf, a pe bai gwir dderbyniadau'n llai na'r symiau amcangyfrifwyd, yna bydd angen adnabod ffynhonnell ariannu amgen.

**2.4 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Mae'r cynnydd o £1,538,000 yn y defnydd o'r ffynhonnell yma o ariannu gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, yn bennaf oherwydd –

- Cronfeydd Penodol - yn yr adolygiad ail chwarter ariannwyd cynllun allyriadau Amlosgfa Bangor ac elfen o waith cynnal a chadw ffyrdd sirol o gyfraniadau refeniw dros dro. Yma trosglwyddir rhwng ffynonellau ariannu er mwyn ariannu'r cynlluniau yma o gronfeydd penodol - £568,030 (gweler hefyd 2.5 isod).
- Cronfeydd Adnewyddu - pryniant cerbydau drwy'r cronfeydd adnewyddu £914,690, gan gynnwys £709,340 ar gyfer cyfnewid o lesu i brynu, a £56,640 yn dilyn penderfyniad i ddefnyddio cerbydau pŵl yn hytrach na thalu costau teithio.

**2.5 Cyfraniad Refeniw i Wariant Cyfalaf**

Ceir lleihad net o £12,000 yn rhaglen gyfalaf yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn bennaf oherwydd –

- trosglwyddiad rhwng ffynonellau ariannu (gweler Cronfeydd Eraill uchod) cyfanswm o (£568, 030).
- Cynlluniau Gwastraff –
  - ail leoli'r lagŵn yn Llwyn Isaf £250,000 yn 2012/13
  - Datblygu Cell 4 yn Ffridd Rasus £149,460 yn 2012/13
- Pryniant peiriant golchi cerbydau £130,000 yn 2011/12.

**2.6 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell i'r Bwrdd dderbyn y rhaglen ddiwygiedig 2011/12 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 2.2 i 2.5 uchod).** Cyflwynir gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3 LLITHRIAD i 2012/13

**3.1** Mae cyfanswm y lefel llithriadau yn y rhaglen gyfalaf o 2011/12 i 2012/13 bellach wedi cynyddu i £23,292,240 (roedd £19.4m wedi'i adnabod erbyn yr adolygiad ail chwarter). Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn dangos y sefyllfa ar ôl lithro'r cynlluniau, gyda'r prif eitemau ychwanegol i'r rhai adroddwyd yn yr adolygiad ail chwarter fel a ganlyn -

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Grantiau Tai (Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) - £563,610
- Diffyg lle yn Ysgol Gynradd Llanrug (Adran Addysg) - £498,000
- Cynnal a Chadw Adeiladau (Adran Gofal Cwsmer) - £300,000
- Benthyciadau Tai (Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) - £200,000

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog (Adran Economi a Chymuned) - £1,737,980
- Adfywio Ffisegol yng Ngogledd Cymru (Adran Rheoleiddio) - £708,050

**3.2** Ni fydd y llithriadau uchod yn golygu unrhyw golled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r llithriadau mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

**3.4** Mewn amgylchiadau ble bu llithriadau sylweddol, disgwylir i'r adrannau perthnasol (ynghyd â'r Adran Strategol a Gwella) adrodd yn briodol i'w Pwyllgor Craffu perthnasol, gan nodi'r effaith ar wasanaethau a ddarperir gan yr Adran berthnasol.

## 4 GWARIANT CYFALAF 9 MIS CYNTAF 2011/12

**4.1** Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa gwir wariant cyfalaf pob adran erbyn diwedd y trydydd chwarter gyferbyn â'u cyfran adrannol o'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2011/12 -

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Rhagfyr) 2011/12 £'000** | **GWIR WARIANT Y 9 MIS HYD AT 31/12/2011 £'000** |
|---|---:|---:|
| Adnoddau Dynol | 239 | 168 |
| Addysg | 8,199 | 5,327 |
| Cyllid | 0 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 601 | 276 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 3,222 | 1,132 |
| Gofal Cwsmer | 6,146 | 3,903 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 2,815 | 1,938 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,836 | 4,001 |
| Rheoleiddio | 8,254 | 4,099 |
| Strategol a Gwella | 5 | 1 |
| Tai Cyngor | 63 | 13 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 327 | 213 |
| Corfforaethol | 2 | 1 |
| **CYFANSWM** | **38,709** | **21,072** |

**4.2** Mae dros £21.0m (sef 54% o'r gyllideb) wedi ei wario yn ystod y naw mis cyntaf (£9.4m ohono yn ystod chwarter 3).

| **CRYNODEB** | **ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2011/12** | **ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2010/11** | **GWAHANIAETH** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £38.7 miliwn | £43.9 miliwn | (£5.2 miliwn) |
| Gwariant y 9 mis cyntaf | £21.0 miliwn | £20.3 miliwn | £0.7 miliwn |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 54% | 46% | 8% |

**4.3** Yn dilyn y gweithgaredd a gwario sylweddol yn chwarter 3 mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn uwch na'r gyfran gyfatebol llynedd.

## 5 PROFFILIAU GWARIANT

**5.1** Er gwybodaeth dangosir isod grynodeb parthed gwir wariant yr adrannau ar eu cynlluniau cyfalaf ar ddiwedd y trydydd chwarter yn erbyn proffiliau gwreiddiol yr adrannau -

| CYNLLUNIAU GWREIDDIOL: | PROFFIL GWARIANT GWREIDDIOL HYD AT 31/12/11 | GWIR WARIANT HYD AT 31/12/11 | GWIR WARIANT FEL % O'R PROFFIL | GWARIANT YN WAHANOL I'R PROFFILIAU |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| | | | | |
| Adnoddau Dynol | 166 | 168 | 101 % | 2 |
| Addysg | 4,591 | 5,327 | 116 % | 736 |
| Cyllid | 0 | 0 | 0 % | 0 |
| Darparu a Hamdden | 277 | 276 | 100 % | (1) |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | 0 % | 0 |
| Economi a Chymuned | 1,818 | 1,132 | 62 % | (686) |
| Gofal Cwsmer | 4,565 | 3,903 | 85 % | (662) |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 2,168 | 1,938 | 89 % | (230) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 5,412 | 4,001 | 74 % | (1,411) |
| Rheoleiddio | 6,338 | 4,099 | 65 % | (2,239) |
| Strategol a Gwella | 1 | 1 | 100 % | 0 |
| Tai Cyngor | 0 | 13 | 0 % | 13 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 225 | 213 | 95 % | (12) |
| Corfforaethol | 1 | 1 | 100 % | 0 |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **25,562** | **21,072** | **82 %** | **(4,490)** |

**5.2** Mae'r tabl uchod yn cymharu sefyllfa gwariant diweddaraf yn erbyn y proffil gwariant a ragwelwyd ar gyfer y cynlluniau perthnasol. Fodd bynnag, derbyniwyd proffiliau'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, yr Adran Rheoleiddio a'r Adran Economi a Chymuned ar gychwyn y flwyddyn, tra derbyniwyd gweddill y proffiliau oddeutu 6 mis i mewn i'r flwyddyn. Yn naturiol, mae perfformiad yr adrannau yn agosach i'r proffiliau lle maent wedi gosod y proffiliau rheiny ar ganol y flwyddyn.